



**CYNGOR TREF  
LLANFAIRFECHAN  
TOWN COUNCIL**



**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB**  
**Maer: Cyng. Laura Fielding**      **Dirprwy Faer: Cyng Alun Rhys Jones**

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER,  
HYDREF Y 18<sup>FED</sup> 2023**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Medi'r 27ain 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn cais s137 a cheisiadau s144:
  1. Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
  2. Darganfod Llanfairfechan
7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer y Tai Bach Cyhoeddus
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo prynu afalau taffi ar gyfer Calan Gaeaf
9. Derbyn gwybodaeth bellach ynghylch y ceisiadau a'r prosiect goleuadau Nadolig Conwy ar gyfer 2023
10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Prosiect Baneri Llanfairfechan 2023
11. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau i symud Byrddau Tennis Bwrdd o Neuadd Pendalar
12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Hydref 2023 (eitem wedi'i diwygio i ymdrin ag Adroddiadau Ariannol yn ogystal)

**Ymuno â'r Cyfarfod Zoom**

<https://us02web.zoom.us/j/88526747189?pwd=dGdFaGo3TEF5QjVDbTARAud4WG0xUT09>

**Rhif Adnabod y Cyfarfod: 885 2674 7189**  
**Cyfrinair: 699594**

**Taliadau i'w cyflwyno**

- |                                                                        |
|------------------------------------------------------------------------|
| 1. British Gas Awst Medi Hydref 2023 £60.22                            |
| 2. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Hydref 2023 £4700 |
| 3. Paent Sialc o Amazon £18.48                                         |

13. Trafod materion cynllunio

Dim wedi'u derbyn

14. Derbyn gohebiaeth
15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd
16. Derbyn materion brys i'w trafod

# COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN

## NOS FERCHER, HYDREF Y 18<sup>fed</sup> 2023

Yn Bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Alun Rhys Jones; Maer Laura Fielding; Cyng. Sharne-Marie Bellis; Cyng. Leena Farhat; Cyng. Andrew Hinchliff (ar Zoom); Cyng. Nia Jones (on Zoom); Cyng. Christine Roberts; Cyng. Preben Vangberg (ar Zoom)

Clerc y Dref Jayne Neal

Cytunwyd recordio'r cyfarfod er dibenion llunio'r cofnodion.

1. Estynnodd y Dirprwy Faer Alun Rhys Jones groeso i bawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng. Rob Jewell: Cyng. Penny Andow; Cyng. Chris Jones; Cyng. Gareth Jones; Cyng. Elgan Owen

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu) – Dim buddiannau rhagfarnus wedi'u datgan. Eitem 12:3 taliad am y cae pétanque - Bu i'r Cyng. Christine Roberts a'r Cyng. Sharne-Marie Bellis ddatgan buddiant personol gan eu bod yn aelodau o'r pwyllgor Gefeillio Trefi; Bu i'r Cyng. Andrew Hinchliffe ddatgan buddiant personol gan ei fod yn aelod o bwyllgor Darganfod Llanfairfechan
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Roedd y preswlydd yn bresennol felly fe benderfynwyd symud y mater ynghylch adroddiad cyfarfod Cynllunio ar gyfer Sul y Cofio yn Llanfairfechan yn uwch i fyny ar yr agenda i'w drafod yn gynharach.

1. Bydd yr orymdaith yn cychwyn o 10:30yb ar ddydd Sul, Tachwedd y 12<sup>fed</sup> 2023 fel a ganlyn:

Trefn yr Orymdaith ar Dachwedd y 12<sup>fed</sup> 2023

Y Pibydd Richard Griffiths yn arwain yr orymdaith

Cyn-filwyr Llanfairfechan

Arweinwyr Eglwys Llanfairfechan

Cyngor Tref Llanfairfechan

Cymdeithas y Geidiaid, Brownies a'r Rainbows

Gosodwyr Torchau a Grwpiau Cymunedol

Aelodau o'r Cyhoedd

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd ymuno gyda'r gwasanaeth ger Senotaff Llanfairfechan yn dilyn hynny. Bydd Cyn-filwyr Llanfairfechan ar flaen yr orymdaith, ac mae croeso i bawb gymryd rhan.

2. Penderfynwyd fod y rhaglen wasanaeth o'r llynedd yn briodol ar gyfer y digwyddiad yn 2023 yn ogystal
3. Cytunwyd y byddai'r Parchedig Chris Arkell o Eglwys yr Hob yn arwain y gwasanaeth eleni.
4. Awgrymwyd cerdd newydd: Enwau gan Alan Llwyd (i'w ddarllen gan Mr Paul Williams)

'Enwau' gan Alan Llwyd - Llenyddiaeth Cymru

'Enwau' (Names) by Alan Llwyd - Literature Wales

5. Datblygiad newydd ydy yr hoffai aelodau o Glwb Brecwast Cyn-filwyr Llanfairfechan fod ynghlwm â'r digwyddiad. (Rydym bellach wedi cael gwybod yr hoffai Ms D Edwards MBE ddarllen enwau'r rhai a fu farw ar y diwrnod). Caiff penderfyniadau pellach eu gwneud a'u hadrodd amdanyn nhw ynghylch ymrwymadau eraill a darlleniadau'r Cyngor Tref ar ôl Hydref yr 28ain.
6. Awgrymwyd y dylai pawb sydd ynghlwm â'r gwasanaeth gwrdd yn Siambr y Cyngor yn y neuadd am 10yb i fwynhau paned. Bydd cyfle i wirio'r microffonau a pharatoi ar gyfer eu darlleniad.
7. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch ansawdd y sain, ac fe awgrymwyd y byddai microffon omni yn fwy addas ar gyfer y digwyddiad.
8. Bydd gweithgor, gyda staff y Cyngor Tref ynghyd ag unrhyw gynghorwyr Tref a Chyn-filwyr sydd ar gael, yn cwrdd ger y senotaff am 10yb ar ddydd Iau, Tachwedd yr 2il. Bydd hyn yn gyfle i dcluso'r ardal a thrafod cynlluniau'r dyfodol ar gyfer y prosiect senotaff. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Tref yn talu am baned o Gaffi Riverside ar y diwrnod. Mae'r grŵp Cyn-filwyr wedi prynu potiau planhigion ar gyfer y senotaff ac fe fyddan nhw'n darparu trefniad pabiau a rhosod coch ar gyfer y diwrnod. Estynnwyd diolch i bawb sy'n helpu gyda digwyddiad Sul y Cofio Llanfairfechan.

Penderfynwyd derbyn a nodi

## 5 Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion a'r Rhestr Weithredu

Dosbarthwyd y cofnodion. Fe nodwyd eu bod wedi'u darllen ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

| Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council Action List |        | NFI = no further information                                                                |  |
|-----------------------------------------------------|--------|---------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| Date: 18th October 2023                             |        |                                                                                             |  |
| Item:                                               | Date:  | Progress                                                                                    |  |
| 1 Potholes in Mill Road                             | NFI    | Under observation by CCBC                                                                   |  |
| 2 Nant y Pandy car park                             | NFI    | nothing received                                                                            |  |
| 3 Paddling Pool                                     | NFI    | work ongoing                                                                                |  |
| 4 Promenade car park & flood protection             | NFI    | coastal funding has been received Cllr Penny chasing up details                             |  |
| 5 Bus stop damage Y Bont east                       | NFI    | email sent for update 14/09/2023                                                            |  |
| 7 Llanfairfechan Flag Project                       | update | on agenda                                                                                   |  |
| 8 resident concern about flytipping in Station road | update | awaiting information about mobile CCTV                                                      |  |
| 9 Benches project                                   | update | request for a plaque on the metal bench at The Cob. There will be a cost for putting it up  |  |
| 10 Station Road Garden                              | update | progressing well. Items delivered and awaiting clearance of site                            |  |
| 11 MUGA West Shore                                  | NFI    | UK Prosperity fund bid sent off fo 22nd September                                           |  |
| 13 Audit                                            | NFI    | external audit has been sent out and no further requests for information have been received |  |
| 14 Kickstarter Community Plan                       | NFI    | email sent for update 5/07/2023                                                             |  |
| 17 Police information                               | NFI    | PCSO Josh Jackson is in training and will be on the beat by November 101/999 in interim     |  |
| 18 River leak under railway bridge                  | update | work completed - leak has been fixed                                                        |  |
| 19 Pagoda shelter                                   | NFI    | painting needs completing but feedback as been really good                                  |  |
| 20 Beach huts                                       | NFI    | Llais y Lle and Carneddau project are interested. Cartrefi community chest may fund         |  |
| 21 Calan Gaeaf celebrations                         | update | on agenda                                                                                   |  |
| 22 Remembrance Sunday                               | update | meeting report                                                                              |  |
| 22 Festive Fayre                                    | NFI    | plan in progress                                                                            |  |
| 23 Christmas lights                                 | update | on agenda                                                                                   |  |
| 24 reports of drug use                              | NFI    | Youth Services and NWP are involved in outreach education work                              |  |
| 25 footbridge damage                                | update | planks are completely fixed - under observation as others are loose                         |  |
| 26 Caradog Place footbridge barriers                | NFI    | email sent - temporary barriers back up                                                     |  |
| 27 Station Road dog mess                            | update | extra bags and post on Facebook/ chalk paint ready for use when weather allows              |  |
| 28 Pen dalar sign                                   | update | on order £240 +VAT                                                                          |  |

**5 Difrod i'r lloches bws** Codwyd pryderon ynghylch y difrod i loches bws Y Bont tua'r Dwyrain gan nad oedd Swyddog Conwy wedi cysylltu'n ôl sy'n anghyffredin. Clerc i e-bostio swyddog cyswllt Adran Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau i ganfod a ydyn nhw'n dwyn y mater i ystyriaeth ai pheidio.

Nodwyd bod difrod i loches bws Yr Heath hefyd ac mae angen adrodd amdano.

**8 Maes Parcio Ffordd yr Orsaf** Aros am wybodaeth ynghylch system CCTV symudol newydd yng Nghonwy. Mae'r arwyddion tipio anghyfreithlon wedi'u gosod ym maes parcio Ffordd yr Orsaf.

**9 Prosiect Meinciau** – plac newydd i'w osod ar y fainc metel ar Y Cob. Bydd y teulu'n talu £45 am y plac ac maen nhw wedi'u gwahodd i ddarparu cyfraniad tuag at y prosiect meinciau. Soniwyd y bydd cost i osod yr arwydd gan y bydd angen rhybedwr felly fe ddylid cynyddu'r pris cost i gynnwys hwnnw hefyd.

**10 Prosiect Gardd Ffordd yr Orsaf** – mae eitemau wedi dechrau cyrraedd, ac mae disgwyl y caiff y tŷ gwydr a'r sied metel eu danfon i randir y Rotari. Y cam nesaf ydy arwyddo'r dogfennau ar gyfer y drwydded a thacluso'r safle. Clerc i e-bostio'r Asiantaeth Cefnffyrdd, Cadwch Gymru'n Daclus a'r Dirprwy Faer i fwrw iddi gyda hyn.

**18 Mae gwaith i Danbont Ffordd yr Orsaf** bron wedi'i gwblhau. Mae'r wal gynnal sy'n gyfochrog â'r afon wedi'i hatgyweirio a'i hail-bwyntio erbyn hyn. Mae'r llenwad y tu ôl i'r wal wedi'i gloddio ac mae concrid wedi'i osod yn ei le. Mae disgwyl y bydd y gwaith castio cilfachau concrid a gosod falfiau fflap i reoli dŵr i mewn/allan wedi'i gwblhau erbyn canol yr wythnos nesaf. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn sgil gosod concrid yng nghefn y wal yn ymddangos yn addawol gyda dim ond ychydig o dystiolaeth o ddŵr yn rhedeg i'r briffordd. Byddwn yn cyflwyno hysbysiad ar Facebook i dawelu meddwl y preswylwyr ein bod ni wedi mynd i'r afael â'r mater.

**19 Lloches Pagoda** Bydd y staff yn cwblhau'r prosiect hwn unwaith y bydd y paent ar gael. Caiff y teclynau codi sbwriel eu hamnewid am rai newydd a chaiff bagiau sylfaenol Cadwch Gymru'n Daclus eu gadael ger yr Orsaf Glanhau

**25 Difrod i'r bont droed** Nodwyd bod y byrddau melyn yn dal yn arnofio yn yr afon. Clerc wedi e-bostio CBSC i fynegi eu pryderon bod y byrddau wedi'u gadael yno gan y gweithwyr.

**27 Baw cŵn ar Ffordd yr Orsaf** – Dydy'r bagiau heb fod yn llwyddiannus yn yr ardal hon gan fod pobl yn eu tynnu lawr ac yn eu dwyn unwaith y cŵn nhw eu gosod yno. Bydd y staff yn defnyddio paent sialc i beintio'r negeseuon yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae camerau CCTV ar rai o'r siopau yn y ffordd felly mae'n bosibl y gallai'r busnesau helpu i adnabod perchnogion y cŵn.

**28 Arwydd Neuadd Pen Dalar** – Mae'r haen blastig newydd wedi'i archebu ar gyfer yr arwydd gan fanteisio ar y cynnig arbennig o ddau am £240. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn paratoi posteri ar gyfer yr arwydd a chaiff trefniadau eu rhoi ar waith gyda Chynghorydd Ward Pandy i osod y posteri. Bydd y Clerc yn archebu allwedd diogelwch newydd ac yn paratoi posteri ar gyfer y prosiect.

6. Derbyn cais s137 a cheisiadau s144:

1. Gwasanaeth Ieuencid Conwy

Doedd y cais heb ei dderbyn mewn pryd ac fe gaiff ei ystyried yn y dyfodol

2. Darganfod Llanfairfechan

Mae'r pwyllgor wedi ymgeisio, gan fod angen cyllid grant arnyn nhw i gynnal a chadw'r wefan a thalu am ddeunyddiau marchnata. Mae'r grŵp yn ymgorffori Partneriaeth Cynllunio Cymunedol Llanfairfechan yn eu prosiect a bydd angen deunyddiau marchnata a hysbysebu ychwanegol i ategu'r prosiect hwn. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol dros ben ac un y mae'r Cyngor Tref wedi cytuno arno'n flaenorol a fyddai'n gam buddiol ar gyfer y Cynllun Cymunedol. Nodwyd bod lwfans s144 yn yr archebiant i dalu am y grant i Darganfod Llanfairfechan ac felly fe gytunwyd y dylid dyfarnu £1000 i'r grŵp.

Cynigwyd gan y Cyng. N Jones Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Yn Unfrydol

Penderfynwyd

cymeradwyo a nodi

7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer y Tai Bach Cymunedol

Dosbarthwyd dogfen sylweddol cyn y cyfarfod yn crybwyll dadansoddiad o'r costau ar gyfer adfer Tai Bach Ffordd yr Orsaf. Gofynnwyd am hyn fel man cychwyn ar gyfer cais cyllid allanol yn y dyfodol gan nad oes cyllid ar gael gan CBSC i adfer tai bach cyhoeddus. Deellir bellach efallai na fydd cronfa Ffyniant Gyffredin y Cynghorau Tref a Chymuned yn addas yn sgil y terfynau amser llym sydd ynghlwm ond byddwn yn ymchwilio i gronfeydd eraill unwaith y bydd canlyniadau'r arolwg Gwasanaethau Cynaliadwy i breswylwyr wedi'u dadansoddi. Awgrymwyd y gallai fod cyfanswm cost o ychydig dros £75,000 i sicrhau bod y tai bach yn addas i'w defnyddio unwaith eto. Mae'r Cyngor Tref wedi holi a fyddai modd gostwng y cyfanswm hwn petai un tŷ bach yn cael ei adfer fel tŷ bach neillryw. Cytunodd Tirfesurydd Adeiladau CBSC y gallai hyn fod yn briodol a chaiff gwaith pellach ei gwblhau er mwyn ystyried y costau sydd ynghlwm â'r dull newydd hwn. Clerc i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd derbyn a nodi

8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo prynu afalau taffi ar gyfer Calan Gaeaf

Dyfyndbris dangosol gan Tatws Trading – Afalau taffi x 20 mewn blwch am £15 y blwch. Cafodd cais i brynu 100 o afalau ei gymeradwyo ond byddwn yn casglu rhagor o ddyfyndbrisiau. Amserlen Calan Gaeaf, dydd Mawrth Hydref yr 31<sup>ain</sup> 2023:

- 6:00yh ymgynnull yng Ngerddi Fictoria ar gyfer afalau taffi a sudd afal cynnes
- 6:30yh ymgynnull ar gyfer yr Orymdaith Llusernau a bydd yr orymdaith yn teithio ar hyd y Ffordd Goch tuag at y lanfa
- 7:00yh Arddangosfa Tân Gwyllt
- Ffair i Blant / bydd y Pafiliwn, Seagrass a'r Clwb Hwyllo ar agor
- Bydd casgliad tuag at Elusen y Maer yn y digwyddiad

Bydd Gweithdai Llusernau yn Neuadd Gymunedol Llanfairfechan o 10yb tan 4yp ar ddydd Sadwrn, Hydref yr 28<sup>ain</sup> a dydd Llun, Hydref y 30<sup>ain</sup>. Penderfynwyd derbyn a nodi

9. Derbyn rhagor o wybodaeth am y ceisiadau a'r prosiect goleuadau Nadolig Conwy ar gyfer 2023

Mae'r goleuadau wedi'u cludo ar gyfer gwiriadau PAT a'r bwriad ydy eu gosod a'u goleuo yn ystod wythnos 1af Rhagfyr yn barod at y Ffair Nadolig ar Ragfyr y 10fed. Soniodd y Clerc am y prosesau newydd fyddai'n dod i rym erbyn Nadolig 2024 sy'n ymddangos ar ffurflen gais goleuadau newydd CBSC. Ynghlwm â'r broses fe fydd ffi ymgeisio o £500 fesul ffordd a fyddai'n arwain at gost weinyddol cychwynnol o £1500. Yn dilyn gwrthwynebiad cryf gan y Cynghorau Tref, mae CBSC bellach wedi dweud y byddan nhw'n cydweithio gyda'r Clercod Tref a'r gosodwyr goleuadau i ddatblygu proses ymgeisio addas i'w bwrrpas. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd cost weinyddol sylweddol gan CBSC erbyn Nadolig 2024 ac fe fydd proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor Tref yn anodd dros ben. Soniwyd hefyd y dylai'r Cyngor Tref adrodd yn ôl i'r preswylwyr yn dilyn yr arolwg Facebook - caiff hysbysiad Facebook ei gyflwyno ynghylch canlyniadau'r arolwg goleuadau a'r cynlluniau ar gyfer goleuadau 2023.

Penderfynwyd derbyn a nodi

10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Prosiect Baneri Llanfairfechan 2023

Mae baneri presennol y siopau wedi'u difrodi'n sylweddol gan y gwynt ac maen nhw'n anaddas i'w defnyddio yn y prosiect hwn. Derbyniwyd baner sampl sy'n fwy addas ar gyfer y prosiect, ond bydd angen logo heb destun arno. Y cynnig ydy gosod y faner newydd a fyddai'n fwy cadarn, yn lle'r hen rai. At hyn, soniwyd bod sawl baner Nadolig sy'n dal mewn cyflwr rhesymol felly byddai modd defnyddio'r rhain fesul ail gyda'r baneri gwyrdd er mwyn defnyddio'r cyflenwad cyfredol. Bu trafodaeth ynghylch gofyn i fusnesau gyfrannu tuag at y prosiect gyda'r syniad

y gallai busnesau brynu eu baneri hysbysebu eu hunain hefyd, fodd bynnag, mae problem gyda'r testun – bydd angen i'r baneri fod yn rhai dwy ochr a bydd yn rhaid eu prynu o rywle arall am £184 fesul baner.

1. Cynigwyd y dylid defnyddio'r baneri presennol os yn bosibl ac mae gofyn i'r Clerc gasglu rhagor o wybodaeth a gwirio niferoedd y baneri presennol.
2. Mae problem hefyd gyda baner y brif neuadd – mae wedi'i difrodi ac mae angen ei thynnu er mwyn gosod baner newydd. Clerc i barhau i fynd i'r afael â'r broblem ac adrodd yn ôl ar frys.
3. Cytunwyd cadw'r baneri Gefeillio Trefi ar y neuadd a byddai'r Cyngor Tref yn prynu rhai newydd pan fo'u hangen.

Cynigwyd gan y Cyng. L Farhat Eiliwyd gan y Cyng. N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

11. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau i symud Byrddau Tennis Bwrdd o Neuadd Pendalar  
Bu cam-gyfathrebu ac mae angen i'r Clerc gysylltu gyda Gareth Blacksmith ynghylch y mater hwn.

Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Medi 2023 (eitem wedi'i diwygio i ymdrin ag Adroddiadau Ariannol yn ogystal)

| Taliadau i'w cyflwyno                                                       |
|-----------------------------------------------------------------------------|
| 4. British Gas Awst Medi Hydref 2023 £60.22                                 |
| 5. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Hydref 2023 £4700      |
| 6. Paent Sialc o Amazon £18.48                                              |
| Taliadau Ôl-ddyddiedig ar gyfer Tachwedd yr 8 <sup>fed</sup> 2023           |
| 7. Viking papur a cherdyn ar gyfer Sul y Cofio £108.94                      |
| 8. Surf Life grant s137 (bu i fater blaenorol ohirio'r taliad) £500         |
| 9. Cyngor Gwynedd Morfa Madryn £10.00                                       |
| 10. Stephen Lomax (Clwb Brecwast y Cyn-filwyr) ad-dalu am botiau planhigion |

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

13. Trafod materion cynllunio

Dim wedi'u cofrestru

Penderfynwyd derbyn a nodi

14. Derbyn gohebiaeth

Llythyr diolch i'r Clerc am eu cymorth yn ystod yr ymweliad Gefeillio Trefi yn 2023 Penderfynwyd derbyn a nodi

15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid – Dosbarthwyd yr adroddiad archebiant a'r adroddiad Cyllideb yn flaenorol ac fe nodwyd eu bod wedi'u darllen. Nodwyd bod y cyfanswm misol ar gyfer incwm y farchnad wedi'i gynnwys. Soniwyd bod y taliad ar gyfer yswirio'r farchnad yn gytundeb contract o Fedi hyd at Ragfyr yn sgil salwch staff.

Cyfarfod Swyddog Tân – nodyn atgoffa bod angen cyhoeddi gweithdrefnau pan fo tân ar gychwyn y cyfarfodydd. Clerc i ychwanegu datganiad ar frig yr agenda. Bydd ymarfer tân yn y dyfodol agos.

Penderfynwyd derbyn a nodi

16. Derbyn materion brys i'w trafod

1. Ymholiad ynghylch neuadd Pen Dalar gan breswlydd a oedd yn pryderu ei fod wedi'i werthu i'w ddymchwil i adeiladu fflatiau. Roedd dau breswlydd ar yr hen bwyllgor ac fe wnaethon nhw ddweud nad oedden nhw'n ymwybodol ei fod wedi'i ddiddymu. Rhoddwyd adolygiad fel a ganlyn:

- a. Cafodd Cyfarfod Blynnyddol ei hysbysebu a'i gynnal (Awst 2021), ni ddaeth unrhyw un i'r cyfarfod felly fe gafodd y pwyllgor ei ddiddymu.
- b. Yn sgil diddordeb o'r newydd fe ddatblygwyd pwyllgor newydd, ac fe gychwynwyd yn 2022
- c. Roedd gobaith y gellid llunio prydles gyda CBSC (doedd y neuadd heb feddu ar brydles na statws cyfreithiol o'r blaen).
- d. Cyhoeddodd CBSC yn 2022 fod yr adeilad wedi'i yswirio fel adeilad gwag a'i fod yn rhan o'r portffolio tai sy'n dwyn i ystyriaeth dyfodol adeiladau gwag o ystyried yr angen am dai ledled Conwy.
- e. Nid oes modd cynnig prydles i'r pwyllgor presennol ar hyn o bryd ond maen nhw'n parhau fel grŵp Cyfeillion Pen Dalar gyda'r gobaith y bydd yr adeilad ar gael yn y dyfodol.
- f. Roedd CBSC angen cael gwared ar yr holl eitemau gan mai dim ond yswiriant adeiladau gwag sydd gan Gonwy. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ac mae'r holl eitemau wedi'u harchwilio fel bod modd eu dychwelyd os caiff yr adeilad ei drosglwyddo'n ôl.

g. Clerc i anfon manylion y pwyllgor newydd fel bod modd eu rhannu gyda'r preswylwyr er gwybodaeth.  
Mae'r pwyllgor newydd yn awyddus i groesawu unrhyw breswylwyr Pen Dalar.

2. Mae'r biniau ar olwynion ar Ffordd y Felin yn achosi problem gan nad ydy'r preswylwyr yn symud eu biniau'n ôl ar ôl y diwrnod casglu. Clerc i e-bostio Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau i ofyn a oes modd anfon llythyrau at y preswylwyr.
3. Mae'r grisiau i fyny at y garejys ym Mhendalar yn broblem yn sgil y baw anifeiliaid anwes a'r mieri. Bydd y Cynghorydd yn adrodd am hyn a bydd y Clerc yn gofyn i'r gweithiwr Amgylcheddol am fwrw golwg ar y mieri.
4. Bydd y Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu newydd ar gyfer Llanfairfechan yn cychwyn ar ddiwedd mis Tachwedd.
5. Bydd y gweithgor ar ran y Senotaff yn torri'r canghennau oddi ar y llwyni sydd wedi gordyfu.

Penderfynwyd derbyn a nodi

Daeth y cyfarfod i ben am 9:00yh